

Cofnodion

Teitl y cyfarfod:	Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol
Lleoliad:	Cyfarfod Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	16 Rhagfyr 2024
Aelodau yn bresennol:	Yr Athro Rhys A. Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd) Michelle Griffiths, CNC Dennis Matheson, TFA Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water David Ball, AHDB Nichola Salter, CNC Chris Mills, Afonydd Cymru Einir Williams, Cyswllt Ffermio Creighton Harvey, CFF Matt Walters, Llywodraeth Cymru Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru Betsan John, Llywodraeth Cymru Cat Osborne, Llywodraeth Cymru Gemma Haines, UAC Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru Marc Williams, CNC Jon Goldsworthy, CNC Fraser McAuley, CLA Ruth Johnston, CNC Delyth Lewis-Jones, AHDB
Mynychwyr ychwanegol:	Dr Susannah Bolton Dean Roden, CNC Nick Young, CNC Alison Soper, CNC
Ymddiheuriadau:	Gareth Parry, UAC Sarah Hetherington, CNC
Ysgrifenyddiaeth:	Bronwen Martin, CNC

Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb

- Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod Bwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp WLMF) bawb i gyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau.
- Mae'r cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn nodi'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi cael eu cymeradwyo.*

3. Ni fynegwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn perthynas ag eitemau agenda.
- DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datganiadau o ddiddordeb eisoes ond dylent hefyd ddatgan os oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

Eitem 2. Trafodaeth cyn y cyflwyniad: SAGIS

4. Ymunodd Dean Roden, CNC, â'r cyfarfod i ddeall beth mae'r grŵp ei eisiau o gyflwyniad dilynol ynghylch modelu SAGIS.
5. Rhoddodd Dean drosolwg o'r canlynol:
- Yr hyn sydd ar waith ar hyn o bryd - ar hyn o bryd mae gwaith modelu yn canolbwyntio ar gwmnïau dŵr. Rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol ar gyfer Adolygu Trwyddedau; gwelliannau sylweddol i'r Cynllun Amgylchedd Cenedlaethol (NEP) ar y gweill i'w cyflawni yn AMP8.
 - Beth sydd ar y gweill (yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd) - Mae gwaith modelu yn dal i ganolbwyntio ar gwmnïau dŵr. Bydd yn hysbysu AMP9, o bosibl gan ychwanegu senarios newid hinsawdd.
 - Beth yw'r potensial yn y dyfodol (cyfleoedd datblygu) - Mae angen i ni gael canlyniadau modelu amaethyddiaeth clir - beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni/gyflawni? Mae angen inni gytuno ar reolau ar gyfer cynrychiolaeth o ddefnydd tir amaethyddol yn y gwaith modelu.
6. Cofiodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru fod CNC ar hyn o bryd yn defnyddio data SAGIS i ddiffinio'r angen am fuddsoddiadau ar gyfer y cwmnïau dŵr a gofynnodd pam na fyddai'r un egwyddor yn union yn cael ei dilyn ar gyfer y sector amaeth. Dywedodd Dean fod hyn yn gysylltiedig â'r hyder y byddai gennym ni yn y canlyniad modelu. Mae'r cwmnïau dŵr yn ollyngiadau pwynt penodol ac ar gyfer adolygu trwyddedau, rydym yn modelu'r effaith lawn sy'n rhagdybio bod pob gollyngiad unigol yn gollwng ar gyfer pob caniatâd ar yr un pryd. Awgrymodd Chris nad yw'n ymddangos yn deg iawn, mae hwn yn arf sydd wedi'i ddefnyddio i sicrhau bod y cwmnïau dŵr yn buddsoddi i ddatrys y broblem, a dylid cymhwyso'r un egwyddor i'r sector amaethyddol. Anghytunodd Ruth Johnston, CNC, gobeithio y bydd gennym adnoddau i edrych ar hyn, ond rydym am i'r sector amaethyddol gytuno i'r allbynnau ac felly mae'n bwysig cael y sgysiau cynnar a gonest hyn. Esboniodd Dean y gellid ei wneud yn awr, ond byddai'n annheg iawn ar y sector amaethyddiaeth oherwydd byddent yn talu'r bil am ollyngiadau preifat a phethau eraill nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol. Dywedodd Chris ei fod yn derbyn bod yn rhaid cael dosraniad tecach, ond mae'n rhaid iddo hefyd fod yn ddosraniad teg rhwng y sector cwmnïau dŵr a sectorau eraill. Atgoffodd Dean y grŵp fod gan y cwmni dŵr ffynonellau pwynt (maen nhw'n cael eu talu i gasglu, trin a gollwng), mae hyn yn wahanol i golled gwasgaredig anfwriadol o amaethyddiaeth (ee y llygrwr sy'n talu a'r prif ddosraniad) - mae'r rhain yn ddwy effaith wahanol iawn.
7. Awgrymodd Rhys na ddylai'r grŵp gymryd rhan yn y drafodaeth dechnegol ar hyn o bryd. Amlygwyd rhai pethau allweddol y mae angen i'r grŵp eu hystyried. Efallai bod rhai cwestiynau o ran lefel yr uchelgais, y cyllid a'r adnoddau er mwyn cefnogi'r gwaith ychwanegol posibl hwn. Efallai bod opsiynau i'w harchwilio mewn perthynas â fersiwn 'sylfaenol' yn erbyn fersiwn 'safon aur' o'r gwaith modelu hwn. Yn ogystal, mae angen i gynrychiolwyr ar yr alwad hon gael sgysiau gyda'u sefydliadau eu hunain i allu dod yn ôl gydag awgrymiadau ar gyfer y 'rhestr ddymuniadau' yn y dyfodol a thrafodaeth

yn glŷn ag allbynnau modelu. Dywedodd Rhys y byddai hyn yn debygol o fod yn anodd i ni wneud hyn erbyn mis Ionawr ac awgrymodd y gellid darparu cyflwyniad SAGIS ym mis Chwefror a fyddai'n rhoi mwy o amser i'r grŵp ymgynghori â'u sefydliadau. Mae angen inni feddwl am yr hyn sy'n realistig ac yn gyraeddadwy ar sail pa gyllid bynnag y gellir ei sicrhau os caiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru neu gyllidwyr eraill fel blaenoriaeth uchel.

8. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, wrth gyfeirio at SAGIS, ai dyma'r un gwaith modelu a wnaed gan Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW). Dywedodd Dean mai dyma'r un gwaith modelu sy'n cael ei wneud ar y cyd gan DCWW a CNC. Pe byddem yn edrych ar sectorau eraill, CNC fyddai'n gwneud hynny. Modelau CNC yw'r rhain a adeiladwyd pan mai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru oedden ni – rydym hefyd wedi bod yn ymwneud â'r gwaith graddnodi diwethaf. Esboniodd Rachel fod NFU Cymru wedi bod yn pryderu ers tro ynghylch modelu SAGIS a'i addasrwydd ar gyfer amaethyddiaeth ac wedi rhoi adborth sawl gwaith. Byddai'n fuddiol iawn pe gallai CNC roi briff ysgrifenedig yn manylu beth yn benodol sy'n cael ei ystyried nawr, ac yn enwedig beth sy'n cael ei ofyn ar y grŵp. Yna bydd modd i ni roi ymatebion manwl iawn. Rydym am weld gwaith modelu'n cael ei wneud ble nad yw amaethyddiaeth yn dod i gyfrif am bopeth arall, ble nad yw'n cael ei gamddyfynnu yn y Senedd na'i gamddyrrannu. Felly, fe hoffem gyfle i roi adborth manwl ac arwain ar ddatblygiad unrhyw waith modelu yn y dyfodol.

Pwynt Gweithredu 16 Rhagfyr 01: Dean Roden, CNC i ddosbarthu papur briffio ysgrifenedig yn manylu beth sy'n cael ei ofyn gan y grŵp ynghylch datblygiad posibl gwaith modelu amaethyddiaeth yn y dyfodol gan ddefnyddio SAGIS.

9. Roedd Jon Goldsworthy, CNC yn cofio trafodaethau yn nigwyddiadau hacathon Teifi. Yn anffodus, bu'r cais gwreiddiol i Ofwat yn aflwyddiannus. Roedd ailedrych ar waith modelu SAGIS ac edrych yn fanylach ar amaethyddiaeth yn rhan o'r cynnig gwreiddiol hwnnw i Ofwat. Ers hynny, rydym wedi symud ymlaen ac mae cynigion amrywiol yn fyw ar hyn o bryd. Mae DCWW yn cyflwyno cais i Ofwat ar gyfer Afon Teifi, sydd ychydig yn wahanol, ac rydym hefyd yn datblygu cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri sy'n ceisio gwella ansawdd dŵr a gweithio gyda chymunedau o fewn y dalgylch. Os yw cyllid yn broblem, efallai ei bod yn amser da i feddwl am gynnwys gwaith modelu amaeth SAGIS yn y gwaith hwn, fel y gellir ei archwilio ar sail peilot o fewn dalgylch penodol. Mae'n bwysig iawn ceisio adborth gan Undebau Amaethwyr Cymru a'r holl gynrychiolwyr amaethyddol eraill (e.e. archwilio'r broblem a'r broses hon trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen). Mae gwaith modelu yn aml yn cynnwys tybiaethau amrywiol, ond mae'n rhaid i'r gwahanol sectorau drafod y rhagdybiaethau hynny a chytuno arnynt. Rydym wedi treulio'r chwe mis diwethaf yn casglu ynghyd yr holl dystiolaeth berthnasol sy'n bodoli ar gyfer dalgylch afon Teifi ac rydym yn dod i'r casgliad bod yna fwch amlwg, yn enwedig yn y gwaith modelu o amgylch ffynonellau amaethyddol. Dywedodd Jon ei fod yn awyddus iawn i fynd i'r afael â hynny ac efallai bod y prosiect hwn yn ffordd o wneud hynny.
10. Gofynnodd David am fecanwaith trin dŵr gwastraff ac a yw'r broses honno'n arwain at ryw elfen o lygredd gwasgaredig, yn ogystal â'r all-lifoedd a fyddai'n cael eu hystyried yn darddleodedd penodol. Os oes llygredd gwasgaredig o allbynnau gweithfeydd, a yw hynny'n cael ei gymryd i ystyriaeth yn y gwaith modelu o ystyried ei bod yn anodd meintoli llygredd gwasgaredig yn sgil amaethyddiaeth? Dywedodd Dean na ddylai fod unrhyw lygredd gwasgaredig gan y cwmni dŵr. Mae rhywfaint o ollyngiadau ysbeidiol yn sgil stormydd, ond mae'r rhain wedi'u hystyried gan fod llwyth wedi'i roi yn y model

i'w cynrychioli. Holodd David, ar wahân i unrhyw ollyngiadau yn sgil stormydd, ydych chi'n cymryd bod 100% o'r maethynnau wedi'u tynnu o'r hyn sy'n cael ei ollwng o broses drin yn arferol? Eglurodd Ruth, o ran y gwaith modelu ar gyfer y cwmnïau dŵr, mai'r gollyngiadau uniongyrchol hynny o'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff, ynghyd â'r gollyngiadau ysbeidiol ac unrhyw effaith maethynnau o fewn y gollyngiadau hynny, sy'n cael eu rheoleiddio drwy drwydded. Mae'r unig ffynhonnell arall o faethynnau sy'n dod o'r sector dŵr yn sgil rhoi llaid carthion ar dir. Hoffem allu cymryd hwn allan fel ffigur ar wahân yn y dull modelu amaeth fel y gallwn o bosibl annog y sector i wneud defnydd amgen o'r llaid hwnnw. Byddai'r trwyddedau'n rheoleiddio effeithiau'r maethynnau fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth ar gyfer y gollyngiadau hynny. Dywedodd Ruth ei bod yn hapus i gael sgwrs all-lein gyda David.

11. Daeth Rhys i'r casgliad y byddai Dean a Ruth yn anfon nodyn byr at y grŵp ynghyd â rhai o'r cwestiynau allweddol o ran pennu'r canlyniadau y cytunwyd arnynt a sefydlu beth fyddai'r modelu a awgrymwyd ar gyfer amaethyddiaeth yn ei gyflawni. Gellid hefyd ystyried creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i helpu i lywio'r trafodaethau cychwynnol a chefnogi'r gwaith modelu posibl yn y dyfodol. Dywedodd Dean y byddai pwynt cyswllt yn ddefnyddiol ar gyfer rhywun i wneud penderfyniadau ar yr hyn sy'n dderbyniol i'r sector.

Pwynt Gweithredu 16 Rhagfyr 02: Dean Roden, CNC i roi cyflwyniad SAGIS yng nghyfarfod mis Chwefror 2025.

Eitem 3. Prosiect Adfer Dalgylch Gwy Uchaf

12. Ymunodd Nick Young, CNC â'r cyfarfod i roi cyflwyniad a diweddariad ar Brosiect Adfer Dalgylch Gwy Uchaf. Lansiodd CNC y prosiect yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2024 - [Adfer Gwy Uchaf: Lansio prosiect newydd ac uchelgeisiol i helpu i adfer afon boblogaidd.](#)
13. Rhoddodd Nick gyflwyniad byr, disgrifiodd ardal y prosiect, amlinellu'r amcanion, crynhoi'r camau gweithredu, archwilio rhai o'r meysydd ffocws penodol, crybwyll sut maent yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, a disgrifiodd y camau nesaf.
14. Soniodd Dennis am rywfaint o ganlyniadau gwaith hanesyddol a wnaed yn lleol gan yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol (e.e. ffensio'r afon leol, ansefydlogi'r glannau, etc.) Trafododd Dennis rai o'r dulliau mwy llwyddiannus y mae wedi'u gweld yn Awstralia (e.e. Ilifddorau) a Rhaeadr Conwy (e.e. ôl-ogwyddo'r lan).
15. Gofynnodd Sarah Jones, DCWW a oedd Nick wedi cysylltu â Phartneriaeth Dalgylch Gwy i ddangos y gwaith o fewn y prosiect – mae hwn yn cael ei redeg trwy Sefydliad Gwy ac Wysg. Cadarnhaodd Nick ei fod wedi gwneud cysylltiadau. Soniodd Sarah hefyd am waith Grŵp Dŵr y Bannau a rhoddodd rai enghreifftiau o sut maen nhw'n cefnogi gwaith Rheoli Llifogydd yn Naturiol. Dywedodd Nick fod tîm y prosiect wedi mynychu rhywfaint o ddigwyddiadau gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Phartneriaeth Dalgylch Gwy a Grŵp Dŵr y Bannau. Maent hefyd wedi gwneud cysylltiadau â phrosiect 4 Afon LIFE a Phrosiect LIFE Afon Dyfrdwy.
16. Soniodd Rhys fod llawer o waith a gweithgareddau yn mynd rhagddynt mewn gwahanol ddalgylchoedd a gofynnodd a oes unrhyw beth sy'n nodedig am ddull Prosiect Adfer Dalgylch Gwy Uchaf. Soniodd Nick mai Afon Gwy oedd yr un afon heb

unrhyw gyllid prosiect gan LIFE felly mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i unioni hynny. Mae dalgylch Afon Gwy yn cwmpasu nifer o afonydd eithaf sylweddol o faint, felly mae'r dalgylch yn amrywiol iawn. Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys Swyddog Amaethyddol llawn amser a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda ffermwyr a rheolwyr tir i ddatrys problemau neu faterion. Rydym yn edrych ar gyfres o ddatrysiadau ac yn mynd â phobl ar y daith gyda ni. Dywedodd Nick y byddai'r prosiect yn fwy na pharod i gynnal ymweliad safle i'r grŵp yr haf nesaf.

Eitem 4. Ffactorau Allyriadau Gweithrediadau Dofednod Dwys

17. Ymunodd Alison Soper, CNC â'r cyfarfod i roi trosolwg a diweddariad ar y ffactorau allyriadau newydd ar gyfer gweithrediadau dofednod dwys. Defnyddir ffactorau allyriadau i amcangyfrif allyriadau o safleoedd ffermio dwys, a chawsant eu diweddarau ddiwethaf yn 2013.
18. Comisiynodd Asiantaeth yr Amgylchedd ADAS i lunio adroddiad gyda'r nodau canlynol:
 - Gwerthuso ac adolygu'r ffactorau allyriadau presennol.
 - Sefydlu a yw'r ffactorau allyriadau presennol yn berthnasol.
 - Asesu effaith bosibl dulliau lliniaru ar ffactorau allyriadau.
19. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion:
 - Rhestr o ffactorau allyriadau wedi'u diweddarau
 - Nodi bylchau yn y dystiolaeth
 - Holl asiantaethau'r DU i fabwysiadu'r ffactorau allyriadau newydd.
20. Ymysg rhai o ganlyniadau'r adolygiad mae:
 - Argymhellion i newid rhai ffactorau allyriadau.
 - Gostyngiad yn y FfA ar gyfer cywion brwylio
 - Cynnydd yn y FfA ar gyfer tyrcwn.
 - Gostyngiad yn y FfA ar gyfer ieir dodwy maes
 - Argymhelliad i newid y gymhareb o amser dan do i amser awyr agored ar gyfer dofednod maes.
 - Y rhagdybiaeth ar hyn o bryd yw 20% o'r amser yn cael ei dreulio y tu allan.
 - Mae ymgynghorwyr wedi bod yn defnyddio 12% yn ddiweddar.
 - Cynigir 10% o hyn allan.

(Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw ieir yn mynd allan rhyw lawer, yn enwedig pan gânt eu cadw mewn heidiau mawr mewn adeiladau modern).
21. Cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd ei ffactorau allyriadau newydd ar 29 Tachwedd 2024. Rydym yn cynnig 01/01/2025 i'r newidiadau fynd yn fyw ar gyfer ceisiadau Caniatâd a Chynllunio (os cânt eu cymeradwyo). Bydd gwefan a chanllawiau CNC yn cael eu diweddarau yn unol â hynny, byddwn yn cyfathrebu'n uniongyrchol ag asiantau ac ymgynghorwyr rheolaidd, a byddwn yn cynnwys gwybodaeth yn yr e-bost atgoffa am y Rhestr Allyriadau, sy'n cael ei anfon at ffermwyr yn y flwyddyn newydd.
22. Trafododd Dennis y sefyllfa ym Mhowys ble mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 4 uned ddofednod arall, ond maent yn aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd Dennis am ymchwil ynghylch cynhyrchu wyau a dofednod y tu allan i'r DU. Os bydd y llywodraeth yn atal cynyddu nifer yr unedau dofednod yn y DU, bydd angen i ni gynyddu ein mewnfôrion – efallai bod angen ymchwilio i'r effaith hon. Soniodd Alison

fod lefelau cefndir amonia yng Nghymru yn uchel a bod y cynnydd sydyn yng nghyfraddau magu cywion ieir ym Mhowys yn gryn bryder. Nid oedd Alison yn ymwybodol o unrhyw ymchwil ar hyn yn benodol, ond roedd yn bwynt diddorol.

23. Gofynnodd Rachel a oedd modd rhannu'r adroddiad. Dywedodd Alison nad yw adroddiad ADAS wedi'i gwblhau ond y gellir ei rannu pan fydd ar gael. Dywedodd Rachel mai ei dealltwriaeth hi oedd nad oedd CNC yn penderfynu ar geisiadau am drwyddedau ar hyn o bryd, maen nhw i gyd wedi'u hatal dros dro. Gofynnodd Rachel ai dyma'r sefyllfa o hyd a phryd fyddai hynny'n debygol o newid. Dywedodd Alison mai dyna'r sefyllfa o hyd. Rydym yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn. Gofynnodd Rachel am ddiweddariad yn y dyfodol a gohebiaeth ysgrifenedig ar yr hyn sy'n digwydd er mwyn i NFU Cymru allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w haelodau. Dywedodd Alison iddi siarad â chydweithwyr cyn y cyfarfod hwn ac nad oedd unrhyw ddiweddariad i'w rannu – yr un yw'r sefyllfa o hyd. Atgoffodd Rachel y grŵp fod ffermwyr wedi buddsoddi llawer o arian yn ceisio cael eu ceisiadau mor bell â hyn. Mae trwyddedau gan rai ohonynt ond nid ydynt yn gallu bwrw ymlaen â'r cais er ei fod wedi bod trwy'r broses gynllunio. Dywedodd Rachel o ran amonia yn benodol, y bu cynnydd yn y datrysiadau technolegol, er enghraifft sgwrwyr amonia, a gofynnodd pa mor gyffredin yw hyn yn ôl yr hyn y mae CNC yn ei weld. Cytunodd Alison fod cynnydd wedi bod, ac mae'r dechnoleg ddilynol yn ddiddorol iawn. Mae'r rhai y mae Alison wedi sylwi arnynt wedi bod yn eithaf cadarnhaol ynghylch pa mor dda y maen nhw'n gweithio, felly efallai y bydd cynnydd graddol yn y defnydd, yn enwedig o ran yr unedau mwy modern.

Eitem 5. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Adolygiad 4 blynedd

24. Roedd Dr Susannah Bolton (Cadeirydd Annibynnol yr Adolygiad) yn ddiolchgar am gyfle arall i ymgysylltu â'r grŵp. Diolchodd Susannah i'r grŵp am eu cyfraniad gwerthfawr yn ystod y cyfarfod diwethaf – roedd deunydd pwysig iawn wedi'i gasglu.
25. Mae Susannah yn y broses o goladu gwybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf gan gynnwys tystiolaeth galed gan CNC a ffynonellau eraill, adroddiadau a deunydd o gyfarfodydd amrywiol. Mae'r amserlen yn un dynn ac uchelgeisiol iawn a bydd drafft cyntaf cynnar o'r adroddiad yn cael ei gynhyrchu erbyn diwedd mis Ionawr 2025. O ran yr adroddiad ei hun, eglurodd Susannah nad yw'n mynd i fod yn ddogfen hir, ac y bydd yn glir ac yn hygyrch. Fodd bynnag, bydd pecyn tystiolaeth ategol gyda mynegai y gellir ei chwilio'n hawdd er mwyn dod o hyd i'r darnau perthnasol o dystiolaeth.
26. Roedd Susannah yn cofio nad oedd y grŵp hwn wedi trafod y cyfnod caeedig gyda hi o'r blaen. Er mwyn bod yn gyflawn, cynigiodd Susannah y cyfle i aelodau rannu unrhyw sylwadau neu safbwyntiau mewn perthynas â'r cyfnod caeedig.
27. Dywedodd David fod y cyfnod caeedig yn ffordd eithaf llawdrwm o geisio rheoli amseriad ceisiadau. Rydym yn deall pam y cafodd y dull hwn ei fabwysiadu oherwydd ei fod yn weddol hawdd ei orfodi a'i weithredu. Fodd bynnag, mae ffyrdd mwy soffistigedig o asesu addasrwydd y defnydd yn seiliedig ar ddarlleniadau ar gyfer pethau fel lleithder y pridd, ffigurau glawiad (cyn, ar ôl a disgwylidig) a thymheredd y pridd fel dangosydd twf cnydau. Efallai y bydd amodau addas dim ond arlliw o fewn y cyfnod caeedig ac felly, mae dewisiadau amgen y gellir eu hystyried yn hytrach na'r dull llawdrwm hwnnw. Dywedodd Susannah fod y sylwadau hyn yn adlewyrchu llawer

o'r sylwadau y mae hi wedi'u clywed gan eraill. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o gyfaddawd rhwng creu hyblygrwydd a chael gwared ar yr elfen lawdrwm.

28. Dywedodd Creighton Harvey, CFF ar ran WEL, ei fod yn paratoi rhywbeth mewn perthynas â'r mater penodol hwn. Bu Creighton yn trafod rhai arsylwadau a wnaeth dros yr ychydig wythnosau diwethaf ers i'r cyfnod caeedig gael ei gyflwyno. Mae'n ffordd lawdrwm, ond mae'n anodd iawn asesu pa mor llwyddiannus ydyw, pan na wyddoch faint o ffermydd sy'n cydymffurfio â'r gofynion storio; i ddweud y gwir mae'r ddau beth hyn yn mynd law yn llaw. Ni allwch farnu'r cyfnod caeedig nes eich bod yn gwybod faint o ffermydd sy'n cydymffurfio a faint o ffermwyr sy'n cymryd hynny i ystyriaeth yn y ffordd maen nhw'n rheoli eu ffermydd. Yn lleol, o fewn ychydig wythnosau cyntaf y cyfnod caeedig, roedd nifer o ffermydd yn taenu. Sylwodd Creighton ar un fferm yn arbennig a oedd yn taenu am dri diwrnod. Er, wrth gwrs, roedd CNC yn cymryd agwedd drugarog, yn dilyn arweiniad gan Ysgrifennydd y Cabinet. Mae enghreifftiau eraill o ledaenu yn digwydd mewn amodau da ychydig y tu mewn i'r cyfnod caeedig. Fodd bynnag, os ydych yn mynd i ddefnyddio dull mwy hyblyg, pa adnoddau sydd ar gael i CNC i wneud yn siŵr bod unrhyw ddull a ddefnyddir yn briodol. Yn y pen draw, mae dwy broblem; y cydbwysedd rhwng y cyfnod caeedig a'r gofynion storio a hefyd pa adnoddau sydd gan CNC ar gyfer rheoli unrhyw ddulliau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod hwnnw.
29. Awgrymodd David efallai y gellid dyfeisio rhywbeth lle byddai angen i ffermwr ddangos a chofnodi ei fod wedi ystyried yr holl newidynnau (e.e. lleithder y pridd, glawiad, tymheredd y pridd, tyfiant y cnwd, anghenion y cnwd ac ati) a phenderfynwyd bod yr amodau cyfredol yn amser diogel i ledaenu ar gyfradd benodol. Gellid cofnodi'r holl wybodaeth honno i'w harchwilio'n ddiweddarach os bydd angen. Cydnabu David y cyfaddawd a awgrymwyd rhwng symrlwydd a chymhlethdod, ond efallai bod rhywfaint o dir canol yn rhywle.
30. Soniodd Chris Mills, WEL am angen cnwd sy'n ffactor arall sydd angen ei ystyried. Mae lledaenu heb angen cnwd yn mynd i gael effaith wahanol i ledaenu lle mae angen cnwd. Gofynnodd Susannah i Chris ymhelaethu ar y sylwadau hyn o ran sut y gellid gweithredu hynny efallai neu sut yr ydym yn deall angen cnwd yn well. Dywedodd Chris nad oedd yn arbenigwr yn y maes hwn, ond mae'n ffactor arall i'w ystyried - os nad oes unrhyw angen cnwd o gwbl, a ddylech chi fod yn caniatáu'r lledaeniad mewn gwirionedd. Cytunodd David â Chris ond awgrymodd ei fod yn dod yn gwestiwn o sut yr ydych yn barnu angen y cnwd. Mae trafodaeth ar y gweill yn Lloegr am angen y cnwd a sut y gwneir penderfyniadau ynglŷn â hynny. Ar hyn o bryd, mae RB209 yn cael ei ddefnyddio ond mae hynny hefyd yn ddull eithaf llawdrwm. Fodd bynnag, os oes rhyw fath o waith monitro ar waith a allai ddangos bod amodau tyfu ac y byddai'r cnwd yn wir yn cymryd y maetholion a oedd yn gyffredin ar y pryd, efallai y gallai hynny fod yn ffynhonnell tystiolaeth o angen y cnwd.
31. Soniodd Dennis am yr angen i egluro'r diffiniad o dail buarth a slyri. Roedd Dennis yn ymwybodol o achosion lle mae pobl yn ychwanegu ychydig o wellt at slyri a thrwy hynny yn ei alw'n dail buarth fel ateb er mwyn delio â'r cyfnod caeedig.
32. Dechreuodd Susannah y drafodaeth ar gyfer unrhyw sylwadau pellach am bethau y gallai'r grŵp deimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu neu am bethau nad ydynt wedi'u trafod yn y grŵp hwn sy'n berthnasol i'r rheoliadau, asesu effeithiolrwydd, deall yr effaith neu archwilio dewisiadau eraill.

33. Dywedodd Gemma Haines, FUW o ran yr adolygiad, mae'r 'llyfr gwaith fferm' yn rhywbeth sydd wedi achosi cryn anhawster i Aelodau UAC. Gofynnodd Gemma a oedd y safbwynt ynglŷn ag adolygu'r llyfrau gwaith eu hunain a sut mae ffermwyr yn cael eu cefnogi i fodloni'r gofynion cadw cofnodion, neu efallai bod angen trafod hyn ymhellach. Dywedodd Susannah ei bod wedi cael ei holi ynglŷn â'r pwynt hwn sawl gwaith o ran effeithiolrwydd ac i wneud y broses o roi'r rheoliad ar waith yn symlach. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth yr ydym yn edrych arno fel rhan o'r adolygiad. Mae hyn yn gysylltiedig â maes sy'n gysylltiedig â sut rydym yn edrych ar gael gwared ag unrhyw rwystrau i weithredu, sut rydym yn sicrhau bod unrhyw ymddygiadau penodol yn cael eu hannog neu eu cymell. Mae'n bwysig deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar newid ymddygiad. Dywedodd Gemma y gallai UAC rannu eu profiadau pe bai angen unrhyw enghreifftiau penodol ar Susannah.
34. Gofynnodd Chris a oedd yr adolygiad yn ymdrin â maint y broblem y mae'r rheoliadau'n ceisio ymdrin â hi. Dywedodd Susannah ei bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn gosod y rheoliad, ei ddiben a'r hyn y cafodd ei sefydlwyd i'w gyflawni yn eu cyd-destun. Rydym yn edrych ar y darlun mawr ar draws Cymru gyfan ac ar ffyrdd y gallwn gynrychioli hynny mor syml ac effeithiol ag sydd bosibl. Awgrymodd Chris ei bod yn eithaf anodd pennu pa mor effeithiol yw'r rheoliadau os nad ydych yn gwybod beth yw maint y broblem. Cytunodd Susannah, ond mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar effeithiolrwydd, dŵr a llygryddion yn gyffredinol. Mae llawer o leoddd lle nad yw'r dystiolaeth na'r data gennym, ond mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei gydnabod fel rhan o'r broses hon.
35. Gofynnodd Chris a fydd un o'r argymhellion yn ymwneud â sut y gallwn gasglu'r data hwnnw mewn ffordd fwy effeithiol wrth symud ymlaen. Dywedodd Susannah y bydd yn edrych ar sut y bydd deall lle mae bylchau sylweddol yn y dystiolaeth yn helpu gyda monitro ac o bosibl gwella'r amgylchedd rheoleiddio i'r dyfodol.

Eitem 6. Adolygiad o'r Cofnodion a Chamau gweithredu

36. Cadarnhaodd Rhys unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi cael eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan y grŵp, y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad atynt. Felly, mae'n bwysig bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
37. Bu'r grŵp yn adolygu cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2024. Derbyniwyd y cofnodion gan y grŵp fel cofnod cywir.
38. Rhannodd Bronwen y camau gweithredu sydd heb eu cyflawni a rhoddwyd diweddariadau llafar lle bo'n bosibl.
- Pwynt Gweithredu Mehefin 03: Yr Athro Rhys Jones a Bronwen Martin i dynnu ymatebion y grŵp at ei gilydd i bob un o'r argymhellion o fewn adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA a'i gylchredeg i'r grŵp.
 - Dywedodd Rhys fod y weithred hon wedi dod ychydig yn fwy cymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Roedd Rhys yn cofio bod cyfarfod defnyddiol wedi'i gynnal rai wythnosau'n ôl gyda Cat Osbourne a Matt Walters o Lywodraeth Cymru, David Ball o AHDB a Marc Williams a Bronwen Martin o CNC. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, buom yn trafod adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA a'i argymhellion. Soniodd Marc am ganlyniadau'r cyfarfod hwnnw:

1. Anfon copi o'r adroddiad i Fyrddau Rheoli Maetholion Afonydd yr ACA oherwydd y gallai eu helpu i ddatblygu eu Cynlluniau Rheoli newydd.
2. Gwahodd cynrychiolwyr o Fyrddau Rheoli Maetholion Afonydd yr ACA i gyfarfod nesaf Is-grŵp WLMF ym mis Ionawr i drafod yr argymhellion ac a allant gefnogi neu fwrw ymlaen ag unrhyw beth o fewn eu Cynlluniau Rheoli newydd.

Dywedodd Rhys y byddwn yn dod yn ôl at hyn ym mis Ionawr.

- Pwynt Gweithredu Hydref 04: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am ddadansoddiad o'r holl gynlluniau a'r cyfnodau y dyrannwyd y £52 miliwn hwnnw iddynt.
- Darparodd Andrew yr wybodaeth ganlynol:

Scheme	Budget allocated	
Sustainable Production Grant 2021	£8.0m	Previous RDP funded support
Farm Business Grants – Yard Coverings 2021	£3.0m	
Nutrient Management Investment scheme 2022	£15m	
Yard Coverings Scheme 2022	£3.0m	
Yard Coverings Scheme 2023	£3.0m	
Nutrient Management Investment scheme 2024	£17m	2024 £20m commitment
Yard Coverings Scheme 2024	£3.0m	
Total	£52m	

Eitem 7. Unrhyw fater arall

39. Diolchodd Rhys i'r grŵp am eu holl gyfraniadau eleni a dymunodd seibiant hamddenol i bawb dros y Nadolig.
40. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp WLMF ym mis Ionawr 2025 (dyddiad i'w gadarnhau).
41. Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.